# Newyddion am Gapel Hanesyddol Bethel Dolwyddelan

Y weledigaeth:

- Darparu canolfan treftadaeth hanesyddol.
- Oriel ac adran i grefftwyr lleol.
- Canolfan groeso.
- Beirdd ac artistiaid preswyl.
- Tai.
- Siop atgyweirio.
- Canolfan lles gan gynnwys ffisiotherapi.
- Rhandiroedd a gweithgareddau awyr agored.
- Maes parcio gyda mannau gwefru CT (EV)

Er nad yw'n ymddangos bod unrhyw beth yn digwydd o ran Capel Bethel, yn y cefndir mae Grŵp Gweithredu Bethel (BAG) wedi bod yn brysur gyda'r canlynol:

- Yn dilyn ymatebion cadarnhaol Cynllunwyr Tref Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Menter Siabod, mae llythyrau yn gofyn am gymorth wedi'u dosbarthu i fusnesau o fewn y gymuned. Mae'r rhain yn gofyn iddynt gwblhau holiadur byr i ddangos eu cefnogaeth i gaffael Capel Bethel ac wedi hynny potensial Bethel fel canolfan gymunedol sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'r holiaduron sydd wedi dod i law hyd yma i gyd wedi bod yn gefnogol gyda rhai syniadau adeiladol ychwanegol.

- Mae gan Grŵp Gweithredu Bethel wefan fyw erbyn hyn, sy'n darparu lluniau, brasluniau, newyddion, diweddariadau, manylion cyswllt a gwybodaeth am sut i gefnogi'r Grŵp: https://bethel-action-group.jimdosite.com

- Gwirfoddoli i fordio ffenestri sydd wedi torri gan ei bod yn amlwg bod fandaliaeth a'r tywydd yn cael y gorau o Fethel, fel y gwelsom ychydig fisoedd yn ôl pan fu i un o lechi'r to ddisgyn ychydig lathenni i ffwrdd o gerddwr. Gan ei fod mewn lleoliad mor amlwg, mae diogelwch y cyhoedd yn cael ei gwestiynu.

- Bu i gynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru ymweld â'r pentref yn benodol er mwyn gweld Bethel. Rydym yn aros am y canlyniad ar hyn o bryd.

- Mae llyfryn BAG ar ffurf drafft. Rydym yn gobeithio y bydd ar gael yn fuan.